Y Safon Gwasanaeth Contractwyr

Mae gan Newydd ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth effeithiol a safon uchel i'n cwsmeriaid drwy weithio mewn partneriaeth gyda'n contractwyr. Mae'n bwysig eich bod yn gwybod am y safonau ymddygiad a ddisgwylir gan ein holl gontractwyr. Medrwch ddisgwyl i bawb sy'n gweithio i Newydd neu ar ran Newydd i:

- Eich trin yn gwrtais.
- Cadw apwyntiadau. Os ydynt yn medru cadw apwyntiad, byddant yn cysylltu â chi i drefnu apwyntiad newydd.
- Gwneud gwaith rhwng 8am a 6.30pm ddydd Llun i ddydd Gwener neu fel arall drwy gytundeb gyda'r preswylydd.
- Gwisgo bathodynnau adnabod.
- Gwneud y gwaith mewn modd diogel. Caiff deunyddiau eu cadw'n ddiogel, caiff sgaffaldau ei diogelu a chaiff unrhyw ysgolion allanol eu symud neu eu plancio dros nos neu pan nad ydynt yn cael eu defnyddio
- Bydd contractwyr yn cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch ac yn sicrhau y defnyddir offer diogelu personol pan fo angen. Rhaid iddynt ddweud wrthych am unrhyw beryglon a'ch cynghori sut i gadw'n ddiogel pan fyddant yn gwneud y gwaith.
- Clirio pob malurion, llwch a sbwriel o'r gwaith bob dydd.
- Trin eich eiddo gyda pharch. Byddant yn defnyddio offer diogelu addas, megis llenni llwch, lle'n addas i ddiogelu eitemau y medrai baw neu lwch neu ddifrod arail eu niweidio.
- Sicrhau y cedwir eich cartref yn ddiogel ar bob adeg ac mae'n rhaid iddynt ddweud wrthych os yw'n rhaid gadael drysau a ffenestri ar agor.

Y Safon Gwasanaeth Contractwyr

Ni fydd pobl sy'n gweithio i Newydd neu ar ran Newydd yn:

- Defnyddio setiau radio, CD/chwaraewyr casét ac ati
- Ysmygu tu mewn i'ch cartref
- Defnyddio eich ffôn heb i chi roi caniatâd
- Yfed alcohol yn ystod oriau gwaith
- Defnyddio iaith wael, ymddygiad anllad neu wneud sylwadau hiliol neu rywiaethol
- Mynd i mewn i gartref lle mai dim ond plentyn sy'n bresennol. Os nad oes oedolyn arall yn bresennol, ni fyddant yn dod i mewn i'r cartref ond yn ceisio gwneud apwyntiad arall.
- Defnyddio, symud neu fynd ag unrhyw rai o'ch eiddo ymaith, heb ganiatâd.